

CYNGHORION PRIODOR O GAREDIGION I DDEILIAID EI DYDDYNOD

GAN WILLIAM OWEN PUGHE¹

Ers cyfnod John Rhŷs a John Morris-Jones mae lladd ar fympwyon ieithyddol William Owen Pughe yn ddefod ymhlith haneswyr yr iaith Gymraeg. Lleisiodd Morris-Jones ei farn am Pughe yn nodweddiadol ddigymrodedd mewn erthygl ar yr iaith Gymraeg yn *Y Gwyddoniadur Cymreig* (1889):

Ond nid oedd ganddo allu i feddwl yn glir, nac i ysgrifennu brawddeg gywir, ond ar ddamwain; ac ar gynllun cystrawen yr iaith Saesneg yr amcanai ysgrifennu ... Mewn un gair, yr oedd iaith yn beth na fedrai ddim oddi wrthi, ac fel paentiwr cibddall, llafuriodd am flynyddoedd, gan dybied ei fod yn harddu, lle y difwynai; a phe cawsai efe ei holl ffordd, ni buasai dim o degwch yr heniaith yn aros.²

Roedd ymdrech Morris-Jones i buro'r iaith rhag dylanwad 'Puwiaeth' yn amserol iawn ar y pryd, ond arweiniodd at greu rhagfarn yn erbyn Pughe sydd wedi llesteirio dealltwriaeth o gymhellion ei waith. Griffith John Williams oedd y cyntaf i geisio adfer enw da Pughe trwy bwysleisio ei gyfraniad i ddysg Gymraeg mewn darlith a draddodwyd yn 1948 ac a gyhoeddwyd yn y cylchgrawn hwn ar ôl ei farwolaeth.³ Cafwyd asesiad

¹ Rwy'n ddyledus i Dr Marion Löffler a Dewi Huw Owen am gymorth gwerthfawr gyda'r erthygl hon.

² John Morris-Jones, 'Yr Iaith Gymraeg', *Y Gwyddoniadur Cymreig* (Dinbych, 1889), cyf. III, t. 78 (dyfynnir yn Carr, *William Owen Pughe*, t. 93). Yr un mor ddeifiol yw barn Thomas Parry am ddylanwad Pughe ar lenyddiaeth yn *Hanes Llenyddiaeth Gymraeg* (Caerdydd, 1944), tt. 232 a 237–9.

³ Griffith John Williams, 'William Owen [-Pughe]', *Llên Cymru*, 7 (1962), 1–14; Aneirin Lewis (gol.), *Agweddau ar Hanes Dysg Gymraeg: Detholiad o Ddarlithiau G. J. Williams* (Caerdydd, 1969), tt. 232–52.

cyflawn cytbwys yn astudiaeth Glenda Carr a gyhoeddwyd yn 1983,⁴ lle gosodir gwaith Pughe yng nghyd-destun syniadau'r cyfnod am natur iaith, ac erbyn hyn mae'n haws gweld y tu hwnt i'r hynodrwydd arwynebol a dadansoddi'r sylwedd yn ddiragfarn.

O ran ei waith fel cyfieithydd, y testun sydd wedi derbyn y sylw pennaf yw ei gyfieithiad o *Paradise Lost* Milton, *Coll Gwynfa* (1819). Neilltuir pennod gyfan yng nghyfrol Carr i'r arwrgerdd ryfeddol hon a dylanwad anffodus ei hieithwedd chwyddedig ar farddoniaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg.⁵ Un arall o gyfieithiadau Pughe yw pwnc y papur hwn, un hollol wahanol ei natur a llawer llai hysbys. Nid ceisio achub ei gam fel cyfieithydd yw fy mwriad yma, ond yn hytrach dangos arwyddocâd y gwaith o ran hanes cyfieithu i'r Gymraeg. Mae *Cynghorion Priodor o Garedigion i Ddeiliaid ei Dyddynod* yn esiampl o destun sy'n amlygu potensial cyfieithiad i ehangu a chyfoethogi'r iaith darged. Mae hefyd yn ddiddorol am fod cynulleidfa darged y gwaith yn un benodol iawn o ran ardal ddaearyddol a dosbarth cymdeithasol, ac am fod strategaeth gyfieithu Pughe yn gyfuniad cymhleth o gartrefoli ac estronoli.⁶

Awdur y testun Saesneg gwreiddiol oedd Thomas Johnes (1748–1816). Mae Johnes yn bennaf adnabyddus heddiw am ei waith yn creu tirlun pictiwrésg yn Hafod Uchdryd, yr ystad yng Nghwm Ystwyth a etifeddodd yn 1780.⁷ Roedd hefyd yn dirfeddiannwr

⁴ Glenda Carr, *William Owen Pughe* (Caerdydd, 1983).

⁵ Carr, *William Owen Pughe*, tt. 222–42.

⁶ Termau Lawrence Venuti, *domesticizing a foreignizing*, yw'r rhain, gw. idem, *The Translator's Invisibility* (ail arg., London and New York, 2008), tt. 14–16 *et passim*.

⁷ Dafydd Jenkins, *Thomas Johnes o'r Hafod 1748–1816* (Caerdydd, 1948); Richard J. Moore-Colyer (gol.), *A Land of Pure Delight: Selections from the letters of Thomas Johnes of Hafod, Cardiganshire (1748–1816)* (Llandysul, 1992). Trafodir dylanwad Jean-Jacques Rousseau ar ddatblygiad ystad Hafod gan Heather Williams, 'Rousseau and Wales', yn Mary-Ann Constantine a Dafydd Johnston (goln), *'Footsteps of Liberty and Revolt': Essays on Wales and the French Revolution* (Cardiff, 2013), tt. 35–51.

goleuedig ac yn amaethwr arloesol a geisiai wella dulliau ei denantiaid o drin eu tir.⁸

Dyma gyfnod sefydlu'r cymdeithasau amaethyddol sirol yn Lloegr a Chymru, a Johnes oedd llywydd cyntaf 'Y Gymdeithas er cefnogi Hwsmonaeth a Diwidrwydd yn sir Aberteifi' ('The Society for the Encouragement of Agriculture and Industry in the County of Cardigan') a sefydlwyd yn 1784.⁹

Cyhoeddai'r Gymdeithas adroddiadau blynyddol o 1786 ymlaen yn cynnwys rheolau a rhestrau o'r gwobrau a gynigid i ffermwyr oedd yn llwyddo gyda'r dulliau newydd. Er mai Saesneg oedd prif iaith y Gymdeithas, mae fersiynau Cymraeg o'r adroddiadau wedi goroesi ar gyfer y blynyddoedd 1786, 1787, 1790, 1791 a 1792, ac mae lle i gredu bod rhai eraill wedi eu cyhoeddi yn y 1790au sydd heb oroesi.¹⁰ Nid yw enw'r cyfieithydd yn hysbys, a'r tebyg yw mai'r argraffwyr, sef J. Ross, Caerfyrddin, a oedd yn gyfrifol am lunio'r adroddiadau Cymraeg. Mae craidd y testun yn weddol sefydlog o flwyddyn i flwyddyn, a diddorol yw gweld ansawdd y Gymraeg yn gwella'n raddol rhwng 1786 a 1792.

Erbyn diwedd y 1790au roedd newyn yn berygl gwirioneddol ym Mhrydain yn sgil cyfres o aeafau caled a'r rhyfel yn erbyn Ffrainc, felly roedd mawr angen cynyddu cynnyrch y tir er mwyn osgoi gwrthryfel fel a ddigwyddasai yn Ffrainc. Dyna'r amgylchiadau a gymhellodd Thomas Johnes i fynd ati yn 1799 i lunio *A Cardiganshire*

⁸ Gw. Richard Colyer, 'The Hafod Estate under Thomas Johnes and Henry Pelham, Fourth Duke of Newcastle', *Cylchgrawn Hanes Cymru*, 8.3 (1977), 257–84.

⁹ Gw. David Howells, *Patriarchs and Parasites: The Gentry of South-west Wales in the Eighteenth Century* (Cardiff, 1986), tt. 77–9.

¹⁰ Gw. *Libri Walliae: A Catalogue of Welsh Books and Books Printed in Wales 1546–1820*, gol. Eiluned Rees (Aberystwyth, 1987), tt. 122–6. Teitl yr adroddiad Cymraeg cynharaf yn y Llyfrgell Genedlaethol yw *Rheolau a Gwobrau Y Gymdeithias, er cefnogi Hwsmonaeth a Diwidrwydd, yn sir Aberteifi, yn y Flwyddyn 1787*.

Landlord's Advice to his Tenants. Llyfryn ydyw o 134 o dudalennau sy'n cynnwys dyfyniadau o nifer o adroddiadau amaethyddol gan awduron o Loegr a'r Alban, gyda chynghorion gan Johnes ei hun ar sail ei arbrofion ar ei ystad. Y prif bynciau dan sylw yw cnydau, gwrteithiau, dulliau aredig a hau, peiriannau amaethyddol, caws, a da byw. Gan fod adroddiadau'r Gymdeithas Hwsmonaeth ar gael yn y Gymraeg, roedd yn ddigon naturiol i Johnes gomisiynu cyfieithiad Cymraeg o'i waith ar gyfer ei denantiaid uniaith. Roedd Pughe yn adnabyddus i Johnes trwy ei ymweliadau â'r Hafod i gopïo llawysgrifau, a chan ei fod yn awdurdod cydnabyddedig ar y Gymraeg yn sgil ei eiriadur, y dechreuwyd ei gyhoeddi yn 1793, ef oedd y dewis amlwg i wneud y cyfieithiad.

Cyhoeddwyd y testun Saesneg a'r cyfieithiad Cymraeg yr un pryd cyn diwedd mis Hydref 1800,¹¹ y Saesneg wedi ei argraffu ym Mryste gan Biggs and Cottle a'r Gymraeg yn Llundain gan S. Rousseau (cefnider yr athronydd).¹² Er na roddir enw awdur na chyfieithydd ar yr un o'r ddau gyhoeddiad, mae digon o dystiolaeth yn cadarnhau pwy

¹¹ Mewn llythyr dyddiedig 30 Hydref 1800 diolchodd Iolo Morganwg i William Owen Pughe am 'the copies of Mr Johns' very useful advice to his tenants', Geraint H. Jenkins, Ffion Mair Jones a David Ceri Jones (goln), *The Correspondence of Iolo Morganwg, Volume II 1797–1809* (Cardiff, 2007) [= CIM II], t. 337.

¹² A *Cardiganshire Landlord's Advice to his Tenants* (Bristol, 1800) [= LA o hyn ymlaen]; *Cynghorion Priodor o Garedigion i Ddeiliaid ei Dyddynod* (Llundain, 1800) [= CP o hyn ymlaen]. Nodir y cyfieithiad Cymraeg fel eitem 2752 yn *Libri Walliae* (t. 341), ond yr unig argraffiad o'r fersiwn Saesneg a nodir yno (eitem 2751) yw'r un a gyhoeddwyd gan Wasg yr Hafod (1803?). Achoswyd peth dryswch am ddyddiad cyhoeddi'r *Cardiganshire Landlord's Advice* gan osodiad camarweiniol yn Colyer, 'The Hafod Estate under Thomas Johnes', 260, sy'n rhoi'r argraff mai yn 1790 y'i cyhoeddwyd, dyddiad a ailadroddir yn Howells, *Patriarchs and Parasites*, t. 79. Mae'r cyfieithiad Cymraeg ar gael ar *Eighteenth Century Collections Online*, ond nid yw'r Saesneg yno am ryw reswm.

oeddynt, yn enwedig yng ngohebiaeth Pughe.¹³ Mae llythyrau wedi goroesi oddi wrth Johnes at Pughe yn trafod trefniadau'r cyfieithu yn 1799 a 1800. Ysgrifennodd Johnes at Pughe ar 3 Hydref 1799 yn gofyn beth fyddai cost cyfieithu ac argraffu'r gwaith, gan ddweud 'I wish to have it printed in Welsh & English to give to my Tenants only.'¹⁴ Erbyn 5 Mehefin 1800 roedd Johnes wedi dechrau argraffu ei waith ym Mryste, ac ysgrifennodd at Pughe:

I have taken the liberty of sending you the first sheet of my advice to my Tenants, in another cover by this day's post, which shall be regularly continued as fast as I receive them from the Printer. I shall beg of you to have it translated into Welsh, for which any recompense you may think proper I shall be happy to allow, and to have 400 copies of it printed. I will send you the engravings when finished so as to be halfbound up with it. ... I should very [sic] much obliged if possible if I could take the advice home with me to give away at my rent meeting.¹⁵

Ond erbyn 15 Gorffennaf mae'n ymddangos ei fod wedi newid ei feddwl am nifer y copïau:

¹³ Ar dudalen teitl y copi o'r *Cynghorion* yn y Llyfrgell Brydeinig sydd ar *Eighteenth Century Collections Online* ysgrifennwyd 'Cyvieithiad Idrison' (enw barddol Pughe). Y tebyg yw bod y copi hwnnw wedi dod o lyfrgell y Cymmrodorion ac mai Pughe ei hun a ychwanegodd y priodoliad.

¹⁴ LIGC 13222C, t. 631.

¹⁵ LIGC 13223C, tt. 681–2. Yn anffodus ni oroesodd atebion Pughe (am fod gohebiaeth Johnes wedi ei dinistrio ar ôl ei farwolaeth), ac felly ni chawn wybod faint o dâl a gafodd am y cyfieithiad.

I hope you have safely received all the English copy of the 'Advice'. I ordered 300 impressions of the dungpit to be sent to you which I trust you have had.¹⁶

Mae gohebiaeth Pughe ag Iolo Morganwg yn datgelu tipyn am ei ddulliau o weithio.
Ar 30 Mehefin 1800 ysgrifennodd Pughe:

Mr Johnes is printing advice to his tenants in Cardiganshire, in English. There is to be a Welsh edition also. It will make 8 or 9 sheets. The English he prints at Bristol where he is now with his daughter. I have received 5 sheets of it, which I have translated, and which are now in the printer's hands. I have endeavoured to give the translation a cast of the Dimetian dialect. Dont you think I may take that liberty? If you do, I wish you would put down a few leading peculiarities in your next, which I hope will be on the receipt of this, particularly some of their adverbs. I believe the Dimetians dislike the 'i', as forming diphthongs, more than the Silurians; such as in 'heibo', meddylo', &c.¹⁷

Yn ei ateb ar 4 Gorffennaf nododd Iolo rai o nodweddion tafodieithoedd Dyfed ('Dimetian') a Morgannwg ('Silurian'), gan gynnwys adferfau megis 'beutu' (gw. isod), ond cynghorodd yn erbyn defnydd helaeth o dafodiaith leol:

But you wish to know whether I think it would be proper to give a cast of the Dimetian dialect to your translation of Mr Johnes papers. I think not, and I will give you my reason. It is this: a curious and judicious philologist would be highly pleased

¹⁶ LIGC 13223C, t. 663.

¹⁷ CIM II, tt. 302-3.

with specimens of our various dialects, but common readers have no taste for such things, know not the reasons for them, and of course would be carping and barking like curs at the writer, illnatured ignorance would criticise very unfairly, and the author of the *Welsh Dictionary* would, by those who are already too much disposed to find fault, be represented as one that was ignorant of the language. For this reason, I would write in the common literary dialect which is universally understood in all parts of Wales, unless you should meet with a person from Cardiganshire who could give you the peculiar words and terms used in that part of the country in agriculture. If you can find such a person, and procure such words, I think it would be very proper to use them. The work would be more readily understood by the farmers of ‘sir Brynnoeth’ as we call Cardiganshire in Glamorgan.¹⁸

Fel y cawn weld, cadwodd Pughe at ei fwriad o ddefnyddio arlliw (‘cast’) o iaith Ceredigion. Mae ei gyfieithiad, felly, yn enghraifft gynnar o ddefnydd strategol o dafodiaith nad oedd yn eiddo i’r cyfieithydd ei hun er mwyn darparu ar gyfer cynulleidfa benodol. Wrth wneud hynny roedd Pughe yn newid natur y testun, oherwydd roedd Saesneg Johnes a’r awduron y mae’n eu dyfynnu yn glasurol ac yn ddysgedig, heb fawr o ymdrech i ysgrifennu mewn iaith blaen a chartrefol. Bwriad Johnes oedd cyfleu meddylfryd rhesymegol a gwyddonol yr Oleuedigaeth, ac roedd ei arddull safonol yn rhan bwysig o’i genhadaeth yn hyn o beth. Efallai, yn wir, fod y ffaith fod Johnes wedi trefnu cyfieithiad cyn iddo fynd ati i ysgrifennu’r gwaith ei hun wedi ei ryddhau rhag ymboeni

¹⁸ CIM II, t. 308. ‘Dimetian’ oedd enw Iolo ar dafodiaith y de-orllewin hyd at Afon Dyfi, gw. Richard Crowe, ‘Iolo Morganwg and the Dialects of Welsh’, yn Geraint H. Jenkins (gol.), *A Rattleskull Genius: The Many Faces of Iolo Morganwg* (Cardiff, 2005), tt. 315–31.

am gyrraedd ei gynulleidfa darged yn uniongyrchol, gan adael i'r cyfieithydd ofalu am gartrefoli'r iaith.

Wrth ystyried arwyddocâd ieithwedd ac arddull y cyfieithiad mae'n bwysig cofio safle amwys Pughe mewn perthynas â'r awdur gwreiddiol ac â'r gynulleidfa. Yn ei lythyrau mae Johnes yn cyfarch Pughe fel ei gydradd, gan ddangos parch ato fel dyn dysgedig. Serch hynny, trwy gomisiynu cyfieithiad am dâl roedd wedi sefydlu perthynas meistr a gwas rhyngddynt.¹⁹ Ac o ran ei gefndir cymdeithasol fel mab fferm o sir Feirionnydd roedd Pughe dipyn yn nes at denantiaid yr Hafod nag at berchennog yr ystad.²⁰ Er ei fod fel cyfieithydd yn llefaru yn llais y gŵr bonheddig ac yn ceisio cyfleu ei resymoliaeth oleuedig, gan gadw'n agos iawn at eiriad y testun ffynhonnell, mae'n bosibl gweld yr elfennau o iaith lafar a thafodiaith leol fel ymgais i ymuniaethu â'i ddarlennwyr.

Un arwydd cynnil o barch Pughe tuag at Johnes yw'r gair *Caredigion* sy'n cyfieithu *Cardiganshire* yn y teitl.²¹ Mae hwn yn arwyddocaol am ddau reswm. Yn y lle cyntaf mae'n osgoi enw'r sir fodern (fel a geid yn nheitl y gymdeithas amaethyddol), gan ffafrio enw hynafol y rhanbarth. Ac yn ail, mae'r ffurf yn amlwg yn chwarae ar yr ansoddair *caredig*, ac roedd hwnnw'n gysyniad ystyrion dros ben yn y cyfnod, gan gyfleu'r ddelfryd o gyfeillgarwch ac ewylllys da tuag at gyd-ddyn. Yr awgrym yw bod gwŷr hael yn nodweddu'r rhanbarth, gan gyfeirio'n benodol at waith Johnes yn paratoi'r cynghorion a'u dosbarthu yn rhodd er mwyn gwella cyflwr ei denantiaid.

¹⁹ Peth cyffredin oedd synied am y berthynas rhwng awdur a chyfieithydd fel meistr a gwas yn ffigurol, gw. Susan Bassnett, *Translation Studies* (pedwerydd arg., London / New York, 2014), tt. 15–16.

²⁰ Ganwyd Pughe yn fferm Ty'n-y-bryn ar ystad Peniarth Uchaf, ond pan oedd tua saith mlwydd oed symudodd y teulu i Egryn, fferm lawer mwy yn Ardudwy, gw. Carr, *William Owen Pughe*, tt. 1–3.

²¹ Am enghreifftiau canoloesol o'r ffurf *Karedigyawn* gw. J. Lloyd-Jones (gol.), *Geirfa Barddoniaeth Gynnar Gymraeg* (Caerdydd, 1931–63), rhan II, t. 135.

Ychydig o drafod a fu ar *Cynghorion Priodor* hyd yn hyn, ac wrth gwrs mae hynny'n nodweddiadol o'r diffyg sylw a fu i gyfieithiadau'n gyffredinol, yn enwedig rhai anllenyddol. Y wedd a hawliodd hynny o sylw a fu, yn naturiol ddigon, yw orgraff Pughe a'r ymateb tebygol iddi gan ffermwyr Ceredigion. Mae barn Dafydd Jenkins yn ei lyfr ar Thomas Johnes yn weddol gytbwys:

Gwnaed cyfieithiad Cymraeg ohono, ... gan William Owen ... a chan fod gan Owen syniadau arbennig a mympwyol am yr iaith Gymraeg, mae gwedd eithaf rhyfedd ar y cyfieithiad. Nid yw'n darllen yn rhwydd a naturiol o gwbl, ond nid yw hynny o anghenraid yn golygu nad oedd yn eithaf dealladwy i denantiaid Johnes, er iddynt efallai chwerthin dipyn – a chosi pen dipyn – am ben yr iaith. Defnyddiodd Owen rai geiriau Cymraeg pur anghyfarwydd, ond gofalodd esbonio'r rhan fwyaf ohonynt[.]²²

Asesiad mwy negyddol a geir gan Glenda Carr:

Yn anffodus i'r tenantiaid achubodd Pughe y cyfle yn ei gyfieithiad i arbrofi â'r orgraff, a chan dybied gwneud y gwaith yn fwy cartrefol a chyfarwydd i'r darllenwyr ceisiodd roi arlliw o dafodiaith y rhan honno o Gymru iddo[.]²³

Mewn gwirionedd mae orgraff y cyfieithiad hwn yn weddol gymedrol, ac nid oes fawr o arbrofi yma. Er mwyn osgoi dieithrio ei ddarllenwyr, mae'n debyg, ni ddefnyddiodd Pughe y llythrennau arbennig a geir yn argraffiad cyntaf ei eiriadur (1793–1803) ac yn ei

²² Jenkins, *Thomas Johnes o'r Hafod*, t. 47.

²³ Carr, *William Owen Pughe*, t. 64.

ramadeg (1803), sef ç am *ch*, z am *dd*, f am *ff* a *ph*, a v am *f*.²⁴ Y prif nodweddion newydd yw'r defnydd o acenion i ddangos hyd llafariad yn hytrach na dyblu'r gytsain ddilynol, e.e. *tòrir*, a'r polisi cyson o osgoi sillgollu. Nid Pughe oedd yr unig un yn y cyfnod hwn i ysgrifennu llafariad a gywesgir ar lafar, megis *mae yr* a geir yn aml yn *Geiriadur Beiblaidd* Thomas Charles, ond aeth Pughe â'r peth i eithafion gan greu ffurfiau fel *ac ei*, *og ei*, *oddei ac idd y*.²⁵

Un nodwedd ar y cyfieithiad sy'n debyg o daro'r darlennydd modern yn chwithig yw'r defnydd helaeth o'r frawddeg annormal. Hawdd iawn yw gweld hyn fel efelychiad o drefn y frawddeg Saesneg, gyda'r goddrych o flaen y ferf, ac felly'n gyfieithu slafaidd neu'n estronoli. Diau mai dyma'r math o beth a oedd gan John Morris-Jones mewn golwg wrth honni mai 'ar gynllun cystrawen yr iaith Saesneg yr amcanai ysgrifennu'. Ond mae angen ailystyried hyn oll yng ngoleuni gwaith David Willis sydd wedi dangos mai'r goddrych cyn y ferf oedd y drefn arferol mewn Cymraeg Canol, ac mai proses raddol iawn yn ystod y cyfnod modern cynnar oedd y symudiad tuag at y drefn gyda'r ferf yn gyntaf.²⁶ Roedd cynsail gadarn i'r frawddeg annormal ym Meibl William Morgan, ac ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif roedd y drefn honno'n dal i fod yn hollol safonol mewn llenyddiaeth aruchel, ac yn enwedig mewn cyfieithiadau, er mai trefn y ferf yn gyntaf a nodweddi'r iaith lafar erbyn hynny. Roedd trefn geiriau'r Saesneg yn rhan annatod o arddull rethregol y testun ffynhonnell yn aml, ac ni fyddai rheswm i Pughe beidio â'i dilyn, fel y gwelir ym mrawddeg agoriadol y llyfr:

²⁴ Ar yr ymateb negyddol i orgraff geiriadur Pughe gw. Carr, *William Owen Pughe*, tt. 73–95.

²⁵ Gw. Carr, *William Owen Pughe*, t. 84, lle dyfynnir barn Pughe am y sillgoll 'that in polished writing is deemed unpardonable, being fit only for the common intercourse of business'. Gellid casglu o hynny ei fod yn gweld amcan uwch na'r un ymarferol yn unig i'r cyfieithiad hwn, a bod y wedd lenyddol yn bwysig iddo.

²⁶ David Willis, *Syntactic Change in Welsh: A Study of the Loss of Verb-Second* (Oxford, 1998); gw. yn enwedig tt. 251–6 ar destunau o ddiwedd y ddeunawfed ganrif.

The long attachment which has subsisted between most of your families and mine; the natural connection which ought always to subsist between Landlord and Tenant; added to a long and anxious desire for improving your condition, have induced me to make the following extracts from the most improved writers on Agriculture.²⁷

Y cyfeilliach à fu er ystalm rhwng teuluodd y rhan fwyaf o honoch â fy nheulu innau; y rhwym anianol à ddyly fod yn wastad rhwng y Perchenog a Thriniwr y Tîr; ynghyd ag ewyllys hir a dwys am wellâu eich cyflwr, á ddarfu fy annogi i grynôï y crybwylliadau canlynol o gan yr ysgrifyddion goreu ar Amaethyddiaeth.²⁸

Serch hynny, fel y gwelir mewn darnau eraill a ddyfynnir yn nes ymlaen, mae ei batrymau cystrawennol yn ddigon amrywiol, rhwng brawddegau negyddol a gorchmynnol, rhai'n dechrau ag ymadrodd adferfol neu is-gymal, brawddegau cymysg, ac wrth gwrs ambell frawddeg â'r ferf yn gyntaf. Mae tuedd i'w gweld weithiau iddo ddechrau paragraff gyda brawddeg annormal ar ddelw'r Saesneg, a'i dilyn wedyn gan frawddeg â'r ferf yn gyntaf, fel petai'n dychwelyd at drefn yr iaith lafar, fel yn y ddwy frawddeg hyn:

The many rivers, rivulets, and rills flowing through the mountainous parts of the county, offer their rich streams to meliorate the lands through which they descend. Many thousand acres might partake of their fertilizing effects, at an inconsiderable expence.²⁹

²⁷ *LA*, [t. 3].

²⁸ *CP*, [t. 3].

²⁹ *LA*, t. 36.

Y llaweroedd o afonydd, cornentydd, a rhidysion, yn dylifo drwy leodd mynyddig y swydd hon, á gynnygiant eu ffrydiau ffrwythus i wellâu y tirodd trwy ba rai y disgynant. Gallai lawer milodd o erwydd ymgyfranogi oc eu heffeithion ffrwythlonus, gyda thraul ni thalai sôn amdani.³⁰

Mae lle i ddadansoddi patrymau cystrawennol y cyfieithiad yn fanylach, yn enwedig yr amrywio trefn rhwng goddrych yn gyntaf a berf yn gyntaf, ond y pwynt pwysig yma yw bod angen gweld cyfieithiad Pughe yng nghyd-destun datblygiadau ieithyddol a safonau llenyddol ei gyfnod, ac na ddylid ei gollfarnu am ddilyn trefn y frawddeg Saesneg. Fel y pwysleisiodd Venuti, mae'r cysyniad o estronoli ynghlwm bob amser wrth amgylchiadau hanesyddol penodol.³¹

Elfen allweddol yn strategaeth gyfieithu Pughe yw ei bolisi o osgoi geiriau benthyg o'r Saesneg bron yn gyfan gwbl. Mae hwn yn achos cynnar o'r math o buryddiaeth a ddaeth yn gyffredin yn nes ymlaen yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Datganodd ei fwriad o'r cychwyn cyntaf yn nheitl y gwaith trwy roi'r ymadrodd *deiliaid ei dyddynod am tenants*, gan wrthod y gair amlwg *tenantiaid* a oedd wedi ymgartrefu yn yr iaith er y bymthegfed ganrif.³² Yn yr achos hwn mae'r ymadrodd Cymraeg yn ddigon naturiol, ac mae hon yn strategaeth a ddefnyddiwyd gan gyfieithwyr erioed er mwyn osgoi llwytho eu cyfieithiadau â geiriau benthyg.

Enghraifft arall o osgoi gair benthyg a oedd wedi hen ymsefydlu yn y Gymraeg yw cynnig Pughe i gyfieithu *agriculture*. *Amaethyddiaeth* oedd ei ddewis (gyda phriflythyren

³⁰ CP, t. 36. Ar *rhidys*, un o eiriau Meirionnydd, gw. isod.

³¹ Venuti, *The Translator's Invisibility*, tt. 19–20.

³² Ceir tair enghraifft yng ngherddi Guto'r Glyn, www.gutorglyn.net, 62.9, 86.13, 111.1.

fel yn y Saesneg), sef gair a fathwyd gan John Walters yn ei *English-Welsh Dictionary* (1770) ac a ddefnyddiwyd am y tro cyntaf yng nghyfieithiad Pughe. Gan fod hwn yn derm mor allweddol yn y gwaith rhestrodd Pughe bosibiliadau eraill mewn nodyn ar waelod y tudalen cyntaf:

Amaethiad, Diwyllodraeth, Tirddiwyllodraeth, Tirdriniaeth, Tirdriniad, Triniaeth Tîr, Triniad Tîr, neu Trin Tîr, à ellid enwi y gorchwyl yma.³³

Dyma'r geiriadurwr yn datgan ei fwriad i roi adnoddau geirfaol a morffolegol yr iaith ar waith yn ei gyfieithiad. Ond un gair amlwg iawn sy'n absennol yma yw *hwsmonaeth*. Roedd *hwsmon*, cyfaddasiad o'r Saesneg Canol *housbound*, wedi bod yn rhan o'r iaith yn yr ystyr 'amaethwr' er y bymthegfed ganrif, ac felly hefyd *hwsmonaeth* 'husbandry'.³⁴ Byddai'r ffaith fod *hwsmonaeth* yn cyfieithu *agriculture* yn nheitl cymdeithas amaethyddol y sir yn gwneud ei absenoldeb yma hyd yn oed yn fwy trawiadol. Mae'r achos hwn yn fwy na mater o osgoi gair benthyc yn unig, gan fod cynodiadau gwahanol iawn yn perthyn i'r ddau air Saesneg. Roedd *agriculture* yn rhan o ieithwedd resymolaidd yr Oleuedigaeth ac yn cyfleu'r dulliau gwyddonol o amaethu a oedd i fod i ddisodli'r hen *hwsmonaeth* draddodiadol. Roedd rhaid wrth derm cyfatebol yn y Gymraeg i gynrychioli'r wyddor newydd, ac enillodd *amaethyddiaeth* ei le yn yr iaith yn fuan wedyn.³⁵ Byddai'n hawdd meddwl mai cartrefoli'r cyfieithiad oedd bwriad Pughe wrth ddefnyddio gair cynhenid yn lle benthyciad o'r Saesneg, ond gan fod y benthyciad yn elfen gyfarwydd yn

³³ *CP*, t. 3.

³⁴ Gw. *Geiriadur Prifysgol Cymru* [= *GPC*], svv. *hwsmon* a *hwsmonaeth*.

³⁵ Cynhwyswyd *amaethyddiaeth* yn ail argraffiad geiriadur Pughe (1832). Esiampl arall o air geiriadurol a gafodd ei ddefnyddio am y tro cyntaf yng nghyfieithiad Pughe yw *glanweithdra* sy'n cyfieithu *cleanliness* ddwywaith ar d. 105.

yr iaith ar y pryd a'r gair Cymraeg yn cyflwyno meddylfryd newydd mae'n rhaid ystyried hyn yn enghraifft o estronoli, er mor baradocsaidd y gall hynny ymddangos.

Un elfen mewn cwlwm o eiriau cysylltiedig yw *amaethyddiaeth*, a sylfeini'r cwlwm yw'r termau ar gyfer yr unigolyn a wnâi'r gwaith dan sylw, sef cynulleidfa darged y llyfr. Defnyddir y bôn *amaeth* ar y tudalen nesaf i gyfieithu 'Farmer' (gyda'r esboniad 'Triniwr Tîr' mewn troednodyn),³⁶ a cheir *Tirdriniaeth* i gyfieithu *Agriculture* yn y fan honno, a *triniwr tîr* yn y paragraff dilynol. Yn nes ymlaen ceir *amaethydd* a'r ffurf luosog *amaethyddion* (7, 29) a *diwylliodron*,³⁷ oll yn cyfieithu *farmers*, a *Diwyllodraeth* am *Agriculture*.³⁸ Ond unwaith eto, mae gair benthg sy'n amlwg am ei absenoldeb, sef *ffermwr*.³⁹ Ystyr wreiddiol y ferf *ffermio* oedd gosod neu rentu tir, ac mae'n bosibl bod Pughe yn chwilio am enw a fyddai'n cyfleu natur hanfodol y gwaith yn well. Unwaith yn unig y defnyddiodd *fermwr*,⁴⁰ ac awgryma'r llithriad hwnnw mai polisi bwriadol oedd ganddo o osgoi gair a fyddai fel arall yn ddigon naturiol. Ar gyfer y fferm ei hun defnyddiodd *tyddyn*, gair a oedd yn rhan o iaith lafar gogledd Ceredigion, fel y tystia enwau lleoedd yr ardal.

Mae'r geiriau a drafodwyd yn y paragraff blaenorol yn amlygu elfen arall yn strategaeth gyfieithu Pughe, ac un sy'n ganlyniad anorfod i'w bolisi o osgoi benthyciadau

³⁶ Mae *amaeth* yn gyffredin mewn testunau Cymraeg Canol, fel y gwelir yn *GPC sv.*, ond mewn geiriaduron yn unig y digwydd ar ôl y cyfnod hwnnw, yn wahanol i *amaethwr*. Diau y byddai Pughe yn gyfarwydd ag enw Amaethon mab Don, yr amaethwr penigamp yn chwedl *Culhwch ac Olwen*, gw. Rachel Bromwich a D. Simon Evans (goln), *Culhwch ac Olwen* (Caerdydd, 1988), t. 22, llau. 579–80.

³⁷ Gair arall a berthynai i Gymraeg Canol yn bennaf, gw. *GPC sv. diwylliaedr*.

³⁸ *CP*, tt. 7, 23, 29, 30.

³⁹ Gw. *GPC sv. ffermwr* lle nodir enghreifftiau o'r 16g. ymlaen.

⁴⁰ *CP*, t. 19; hon a *frès* t. 98 yw'r unig enghreifftiau yn y cyfieithiad o *f am ff*, sef confensiwn orgraffyddol ei eiriadur.

o'r Saesneg, sef ei ddefnydd o hen eiriau, y math o eiriau yr oedd wedi eu cofnodi'n helaeth yn ei eiriadur o lawysgrifau canoloesol ac o *Dictionarium Duplex* John Davies. Mae ei fwriad i'w weld yn glir eto yn nheitol y cyfieithiad yn ei ddefnydd o *Priodor* ar gyfer *Landlord*. *Meistr tir*, neu hyd yn oed *landlord*, a fyddai fwyaf cyffredin ar lafar yn y cyfnod hwnnw, ond trodd Pughe at air sy'n nodweddiadol o'r hen destunau cyfraith a cherddi Beirdd y Tywysogion. Mae urddas yr hen air yn ffactor bwysig yn y cyd-destun hwn, gyda'r awgrym o berchnogaeth gyfiawn, ac er nad oedd *priodor* ei hun yn gyfredol erbyn y ddeunawfed ganrif mae'n debyg, byddai'n ddigon dealladwy am fod y bôn *priod* yn dal yn gyffredin. Ond sylwer mai *Perchenog* sydd ganddo am *Landlord* ym mharagraff cyntaf y llyfr (gw. y dyfyniad uchod).

Un o gryfderau cyfieithiad Pughe yw ei ddefnydd dyfeisgar o hen eiriau mewn ystyron newydd. Esiampl dda yw *rhill* 'rhes, cyfres' i gyfieithu *drill*, sef dull o hau had mewn rychau gan arbed gwrtaith:

By drills made two feet asunder, and the drill six inches wide at the bottom, there will just be one-fourth part of the ground covered with manure.⁴¹

Gyda rhilliau â wneler ddwy droedfedd oddiwrth eu gilydd, a phob rhill o léd chwe modfedd yn y gwaelod, bydd yn union un ran o bedair o dir â gwrtaeth arno.⁴²

Mae'n amlwg bod ffurf y gair Saesneg wedi dylanwadu ar y dewis o air Cymraeg i'w gyfieithu, a dichon fod Pughe o'r farn bod cyswllt rhwng y ddau air,⁴³ ond mae

⁴¹ *LA*, tt. 46–7.

⁴² *CP*, t. 47.

⁴³ Cf. Saesneg *rill* 'trench, drill', ac Almaeneg *rille* 'rych bychan'.

enghreifftiau o ddiwedd yr Oesoedd Canol yn dangos bod *rhill* yn cael ei ddefnyddio mewn ystyr nid annhebyg.⁴⁴ Ar sail y gair unsill cyfleus hwn gallai Pughe lunio tarddeiriau er mwyn sôn am ‘rhillio erfin’, ‘cnydiau rhilliedig’, ‘diwylliad rhillio’ a ‘rhillia erfin’ (‘turnip-drill’).⁴⁵ Ond nid yw *rhill* yn gyffredin ar ôl amser Pughe, ac mewn gwirionedd mae’n anodd barnu i ba raddau yr oedd yn air byw yn ei gyfnod ef.⁴⁶

Gellir bod yn fwy hyderus mai geiriau byw oedd *ermig* a *trefnid*, er na fu iddynt oroesi yn yr iaith gyfoes.⁴⁷ Ceir *trefnid* mewn testunau crefyddol hyd y ddeunawfed ganrif yn cyfeirio’n bennaf ar ordinhad dwyfol, ac fe’i defnyddir gan Pughe yn yr ystyr ‘method, system’. Mae hwn yn gysyniad hanfodol mewn disgwrs rhesymolaidd, ac roedd angen mwy nag un gair ar ei gyfer. Gallai Pughe amrywio *trefnid* gyda tharddeiriau eraill o’r bôn *trefn*, megis *trefniadaeth*, fel y gwelir yn y frawddeg hon am ddefaid: ‘ac wrth ddilyn y trefniadaeth à annoged ucho, pesgant lawer cynt no thrwy yr hen drefnid’.⁴⁸ Amrywiad arall yw *trefniadaeth* sy’n cyfieithu *oeconomy* (cysyniad na sefydlwyd term Cymraeg amdano hyd heddiw).⁴⁹

Mae *ermig* yn air thematig arall yn y testun hwn am ei fod yn gyfystyr â *peiriant*, a’r peiriannau newydd oedd un o’r prif foddion i wella amaethyddiaeth yn y cyfnod hwn. Er

⁴⁴ Gw. *GPC* sv. *rhill*; yr ystyron a roddir yng ngeiriadur Pughe ei hun yw ‘A row; a small trench or furrow; a drill’.

⁴⁵ *CP*, tt. 61, 46, 53. Ar ddefnydd Pughe o’r terfyniad –*ai* gw. isod.

⁴⁶ Tebyg mai dylanwad geiriadur Pughe sy’n gyfrifol am yr esboniad ffansiol o’r enw *Ebrill* yn *Y Traethodydd*, III (1847), 437: ‘Mae yr enw Ebrill yn gyfansoddedig o eb a rhill, yn arwyddo fod yr hâd yn anfon allan eu hegin yn rychau y meusydd.’

⁴⁷ Un peth sy’n gyffredin i’r ddau, ac sydd efallai’n esbonio pam na fu iddynt oroesi, yw’r ffaith nad ydynt yn digwydd yn y cyfieithiadau Beiblaidd.

⁴⁸ *CP*, t. 65.

⁴⁹ *CP*, t. 23. Mae hwn yn air arall a gafodd Pughe o eiriadur Walters mae’n debyg, gw. *GPC* sv. *trefniadaeth*.

bod *peiriant* wedi llwyr ddisodli *ermig* erbyn hyn, mae lle i gredu bod yr ail o leiaf yr un mor gyffredin â'r cyntaf cyn yr ugeinfed ganrif.⁵⁰ Roedd yn fanteisiol iawn i Pughe gael mwy nag un gair er mwyn cyfleu cyfystyron Saesneg mewn brawddeg fel hon: 'Yr wyf yn credu nad oes un peiriant mor llesol yn yr holl swydd ag *ermig* ddyrnu'.⁵¹ Mae *ermig* yn digwydd ym marddoniaeth Dafydd ap Gwilym, ac i Pughe (a oedd yn un o olygyddion *Barddoniaeth Dafydd ab Gwilym* 1789) byddai hynny'n brawf o hynafiaeth y gair ac efallai hefyd yn awgrym ei fod yn perthyn i iaith Ceredigion.⁵²

Un o'r heriau mwyaf i gyfieithydd *A Cardiganshire Landlord's Advice to his Tenants* oedd yr ieithwedd wyddonol a dysgedig sy'n britho'r gwaith. Roedd polisi Pughe o ddefnyddio hen eiriau mewn ystyron newydd yn un ateb i'r her, ac ateb digon effeithiol hefyd yn yr achosion lle na fyddai'r estyniad i'r ystyr yn rhy chwyrn. Felly i drosi'r cysyniad haniaethol *fluidity* defnyddiodd Pughe *llifiant* (gair a ddefnyddid mewn ystyr ddiriaethol i olygu 'llif' yn unig cyn hynny).⁵³ Ar gyfer *absorb* (wrth sôn am yd yn amsugno dŵr) defnyddiodd *dysychu*.⁵⁴ Ac mae *dwysdra* yn gwneud y tro'n iawn ar gyfer y

⁵⁰ Mae *Geiriadur Beiblaidd* Thomas Charles yn rhoi *ermig* fel un o gyfystyron *peiriant*, a cf. *Addysg Chambers* i (1851), 236: 'Y mae y gair *peiriant* ... yn golygu unrhyw ermyg neu offeryn'. Gw. hefyd R. Elwyn Hughes, *Nid am Un Harddwch Iaith* (Caerdydd, 1991), tt. 7, 71.

⁵¹ *CP*, t. 53; cf. *LA*, t. 53, 'I believe there is not so useful a machine as a thrashing-mill in the whole county.'

⁵² www.dafyddapgwilym.net 98.20.

⁵³ *CP*, t. 124; *GPC* sv. *llifiant*.

⁵⁴ *CP*, t. 28, gw. y dyfyniad isod. Prif ystyr *dysychu* oedd 'sychu'n llwyr', ond fe'i ceir yn yr ystyr 'absorb' mewn llawysgrif feddygol o ddechrau'r bymthegfed ganrif, Hafod 16 (Caerdydd 3.242) a ddyfynnir yn *GPC*: 'Dwy genedlaeth yssyd or halen ... pob un ohonunt a lanhaa ac a *dissycha* gormodder y gwlyboreu pwdyr.' Gan fod y llawysgrif honno yn llyfrgell Thomas Johnes mae'n bosibl bod Pughe wedi ei gweld yno, ond o gofio ei hoffter o'r rhagddodiad *dy-* (gw. isod) mae'n fwy tebygol ei fod wedi taro ar yr un gair yn annibynnol. Ymhellach ar y llawysgrif, gw. Ida B. Jones, 'Hafod 16 (A mediaeval Welsh medical treatise)', *Études Celtiques*, 7 (1955–6), 45–75, 270–339; 8 (1958–9), 66–97, 346–93.

cysyniad o *density*, er mai mewn cyd-destun crefyddol yn yr ystyr ‘difrifwech’ y’i harferid cyn hynny.⁵⁵ Dyma esiampl o gymhwyso ieithwedd ysbrydol at wyddoniaeth, a hynny’n fodd i leddfu newydd-deb y cysyniad.

Ond ambell dro mae Pughe yn mynd ymhellach wrth gymhwyso hen eiriau, gan briodoli iddynt ystyron heb fawr o sail hanesyddol. Gair sy’n digwydd nifer o weithiau yn ei gyfieithiad yw *blawr*, a’r tro cyntaf iddo ei ddefnyddio rhoddodd droednodyn i esbonio’r gair:

Y peth wyf yn feddwl yw, arfer rhy gyffreddin [sic] pob triniwr tîr o osodi tyrau o galch ar ei faes, ac yno eu gadel hyd oni byddo y blawr† i gyd wedi dianc.⁵⁶

†*Hal*, neu *halen*, yw un o brif elfenau pob cnawd a thyfiad: Y Saeson ei geilw *Salts*, neu halion.

Ansoddair a geir yn yr hen farddoniaeth am liw gwyn neu lwyd (am geffylau yn bennaf) oedd *blawr*, a dyna’r unig ystyr a roddir i’r gair yn argraffiad cyntaf geiriadur Pughe (1793). Fe ymddengys, felly, i Pughe briodoli ystyr newydd i’r gair yn ei gyfieithiad, a bod ei nodyn yn ymgais i sefydlu’r ystyr honno.⁵⁷ Ac os oedd ei ddarllenwyr yn cofio’r ystyr erbyn iddynt ddod ar draws y gair eilwaith, gydag un o eiriau gwneud Iolo Morganwg yn

⁵⁵ Gw. y ddwy enghraifft yn *GPC* sv. *dwystra*.

⁵⁶ *CP*, t. 4; *LA*, t. 4: ‘What I mean is, the too common practice of every farmer to lay heaps of lime over his field, and there leave them until all the salts are evaporated.’

⁵⁷ Yn ail argraffiad ei eiriadur (1832) rhoddir *blawr* fel enw ar wahân i’r ansoddair, â’r ystyron: ‘That shoots out; the principle of crystallization; nitre, salts; grey colour; an iron grey.’ Cafodd *blawr* rywfaint o ddefnydd yn yr ystyr hon mewn ysgrifennu gwyddonol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gw. *GPC* sv.

ei ddisgrifio, diau iddynt gael blas mawr ar yr ymadrodd soniarus hwn: ‘lleithdra yn hylawn o flawr brwysaf y domen’.⁵⁸

Mae troednodyn esboniadol yn nes ymlaen yn y cyfieithiad yn awgrymu bod Pughe yn ystyried bod newydd-deb y pwnc yn cyfiawnhau arfer geirfa ddieithr am fod yr ystyr yn dywyll yn anorfod beth bynnag:

Grass and corn during the time of their growth absorb about one half of their weight of water each day, if the weather be favourable, and the water they thus pass nourishes them merely as water, but it contributes still more to their nourishment when it conveys to them earthy and saline particles, as spring and river waters do.⁵⁹

Gwellt ac yd yn amser eu tyfiad á ddysychant ogyrch hanner eu pwys o ddwr beunydd, o bydd yr hîn yn dymherus, ac y dwr à fwriont drwyddynt fal hyn sydd yn eu maethu yn unig megys dwr, ond i mae yn dyborthi yn fwy etto at eu maethiant pan yw yn dwyn iddynt briddlyd a halus ddefnyddion*, mal y gwna dyfrod ffynnon neu afon.

*Neu ofion priddin a helaidd. Soniwn am hyn fal y mynwyf, er hyny tywyll raid fod y chwedyl ichwi, canys newydd yr amcan; etto hysbys yw yr effaith i bawb; hyny yw, fod raid wrth ryw ddefnydd i bob peth a brifio, neu a dyfo yn fwy ei faint.⁶⁰

⁵⁸ *CP*, t. 23; *LA*, t. 23: ‘moisture saturated with the richest salts of the dunghill’. Ar *brwys* ‘toreithiog’ gw.

GPC sv. *brwys*¹.

⁵⁹ *LA*, t. 28.

⁶⁰ *CP*, t. 28.

Mae *defnyddion* am *particles* yn enghraifft arall o gymhwyso hen air at ddiben newydd, ac yn nes ymlaen gwelodd ar ei gynnig trwy ychwanegu *mân* o'i flaen mewn brawddeg am rwd ar wenith sy'n esiampl o gyfieithu gwyddonol llwyddiannus:

... repeated stirring and change of water is essential to remove the possible particles of infection that may have imperceptibly adhered to the seed.⁶¹

... mynych droi a newid dwr sydd reidiol i dynu ymaith hyny à eill fod o fân-defnyddion y llygriad yn dylunu yn anweladwy wrth yr hâd'.⁶²

Ond ar y llaw arall, dim ond tywyllu cyngor a wna'r glos *ofion* ar yr enghraifft gyntaf o *defnyddion*. Ystyr yr ansoddair *of* oedd 'amrwd', ac er bod GPC yn nodi'r ystyr 'gronyn' iddo fel enw, hon a geiriadur Pughe ei hun (1803) yw'r unig dystiolaeth drosti, ac mae'n glir bod hon yn esiampl arall o greu ystyr newydd i hen air, y tro hwn ar sail yr ystyr dybiedig 'elementary, or in an uncombined state' a roddir i'r ansoddair yn ei eiriadur. O'r fan honno olrheiniodd yr enw, 'The elementary state of a thing; an atomical state; atoms; particles, motes; flue; that is uncombined or crude.' Gwelir yma y berthynas agos oedd rhwng ei waith fel cyfieithydd ac fel geiriadurwr, perthynas a weithiai y ddwy ffordd wrth i ofynion cyfieithu sbarduno creadigaethau a gafodd le wedyn yn ei eiriadur. Ond teg nodi bod y dychymyg mwyaf hedegog yn gyfyngedig i droednodyn yn yr achos hwn, a bod y prif destun yn weddol ddealladwy.⁶³

⁶¹ *LA*, tt. 70–1.

⁶² *CP*, t. 71. Ceir 'defnyddion mân ac ysgawn' yn cyfieithu 'fine subtile parts' ar d. 48.

⁶³ Ni nodir *halus* yn *GPC* am mai hon yw'r unig enghraifft, a hynny am nad yw *hal* yn bodoli fel gair annibynnol (er gwaetha'r nodyn ar *blawr* a ddyfynnwyd uchod). Y perygl oedd y byddai darllenwyr yn ei ddeall yn gyfystyr â *halog* 'brwnt'.

Ymgais arall i sefydlu ystyr newydd i hen air er mwyn osgoi benthg o'r Saesneg yw'r defnydd o *cloron* i gyfieithu *potatoes*. Gair a luniwyd gan Pughe o *clôr* 'cnau daear' yw *cloron* (ar ddelw *moron* efallai), ac fe'i ceir yn argraffiad cyntaf ei eiriadur (1794). Mae'r nodyn esboniadol wrth y defnydd cyntaf o'r gair yn y cyfieithiad yn cydnabod bod y gair benthg yn gyffredin trwy'r wlad: 'Geilw y Saeson nhwy *Potatoes*; ac felly yn gyffredin hyd Gymru hefyd'.⁶⁴ Methiant fu'r ymgais i ddisodli'r gair benthg yn yr iaith lafar, er i *cloron* gael rhywfaint o ddefnydd yn ysgrifenedig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg dan ddylanwad geiriadur Pughe.⁶⁵ Fel y nodwyd eisoes, nid cartrefoli oedd y cymhelliad wrth geisio puro'r iaith.

Os nad oedd modd cymhwyso hen air i gyfleu ystyr newydd, roedd Pughe yn barod iawn i fathu gair at y pwrpas. Gwnâi hynny trwy gyfuno geiriau ac ychwanegu rhagddodiaid ac ôl-ddodiaid. Roedd yn arbennig o hoff o'r rhagddodiad *dy-*, a arferid ganddo'n gryfhaol bob amser.⁶⁶ Felly lluniodd *dydarthu* i gyfieithu *exhale*, a *dydynu* am *extract*, dau air na fu defnydd pellach arnynt hyd y gwyddys.⁶⁷ Ôl-ddodiad a ddefnyddid ganddo'n bur aml oedd *-ai* i ddynodi gweithredydd,⁶⁸ yn enwedig i wneud enwau am offer, megis *hinfydrai* a *tesfydrai*,⁶⁹ y ddau'n enwau am thermomedr, a *trwnrwyddai* am

⁶⁴ *CP*, t. 19.

⁶⁵ Cydnabyddir defnydd llenyddol achlysurol yn *Geiriadur yr Academi* dan *potato*, a *cloronen* a roddir ar gyfer *tuber*.

⁶⁶ Gw. Carr, *William Owen Pughe*, tt. 82–3.

⁶⁷ *CP*, tt. 48 a 111. Ni nodir yr un o'r ddau air yn *GPC* am na fu ddim defnydd pellach iddynt, ond ceir *dydynu* 'to attract, to draw' yn ail argraffiad geiriadur Pughe.

⁶⁸ Gw. *GPC* sv. *-ai*². Bathiadau Pughe ei hun yw nifer o'r enghreifftiau yno, ond mae *cymhellai* yn hŷn, a dichon mai hwnnw a fu'n sail i'w fathiadau ef.

⁶⁹ *CP*, t. 82 (gyda'r nodyn 'offeryn i fesur maint poethdra neu oerni yr hŷn'), t. 123. Ni nodir yr ail yn *GPC*.

‘diuretic’.⁷⁰ Mewn un achos ychwanegodd y terfyniad yn hollol ddiangen, sef *hidlai* ‘sieve’, yr un peth â *hidl*.⁷¹ Mae rhai o’i fathiadau yn weddol dryloyw, fel *sugnen* am *pump*,⁷² a *sodl-wreiddyn* am *taproot*.⁷³ Mae *pereiddion* ‘sbeisys’ yn air a fathwyd heb fod gair cyfatebol yn y testun ffynhonnell, a hynny er mwyn esbonio’r enwau dieithr mewn rysâit am gaws Hafod:

There ought to be a bag of cloves and mace in your rennet⁷⁴

Dyly fod cydraid o bereiddion à elwir *claws* a *mas* yn y cywer⁷⁵

Nid oedd angen bathu llawer ar gyfer pwnc canolog y llyfr gan fod termau amaethyddol yn elfen mor gryf yn yr iaith Gymraeg, sef yr holl enwau ar gyfer anifeiliaid, cnydau (heblaw tatws fel y gwelwyd), offer ac adeiladau’r fferm. Diau fod Pughe yn tynnu ar ei gefndir personol yn hyn o beth, a byddai cyfran fawr o’r eirfa sylfaenol yn gyffredin i bob rhan o Gymru. Afraid rhestru’r geiriau sy’n gyfredol hyd heddiw, ond gellir nodi termau llai cyfarwydd megis *llaesodr* am ran o lawr y beudy, a *marchdy* (gair cyffredin gynt nes ei ddisodli gan *stabl*). Mae geirfa dechnegol helaeth yn y ryseitiau am wahanol

⁷⁰ *CP*, t. 69 (am erfin, gyda’r nodyn ‘Peth i beri gollwng trwnc neu biso yn hawdd’). Nis nodir yn *GPC*, ond y mae yn ail argraffiad geiriadur Pughe.

⁷¹ *CP*, t. 124. Hon yw’r unig enghraifft yn *GPC*, ac nis nodir yng ngeiriadur Pughe.

⁷² *CP*, tt. 23 a 25; y rhain yw’r unig enghreifftiau yn *GPC*, ac nis ceir yng ngeiriadur Pughe.

⁷³ *CP*, tt. 61, 68; y rhain yw’r unig enghreifftiau yn *GPC*, ac nis ceir yng ngeiriadur Pughe.

⁷⁴ *LA*, t. 93.

⁷⁵ *CP*, t. 93; hon yw’r unig enghraifft yn *GPC*.

fathau o gaws, gydag enwau am offer fel *cawsellt*, *car hidlo*, *cunnog* ac *ysletan*, a *maerdy* yn hen enw am y llaethdy.⁷⁶

Roedd berfau'n rhan bwysig o eirfa dechnegol amaethyddiaeth, a gwnaeth Pughe ddefnydd helaeth ohonynt yn ei gyfieithiad, weithiau i drosi berfau Saesneg ac weithiau i gyfleu ystyr ymadrodd yn gryno. Digwydd y berfau am y tasgau sylfaenol fel *arddu*, *llyfnu* a *hau* yn bur aml wrth gwrs, a cheir rhai mwy arbenigol hefyd fel *mydylu* a *dasu*, y ddwy'n cyfieithu *stack* am erfin.⁷⁷ Ac wrth baratoi'r erfin ar gyfer y das roedd angen 'ysgythru eu daill ac eu gwraidd'.⁷⁸ Gellid llunio berfau o'r enwau, felly wrth sôn am wneud lle i'r llo orwedd yn y beudy dywedir: 'Dyly ei *laesodri* yn dda mewn gwellt glân',⁷⁹ a cheir *gwasarnu* am osod clai ar lawr y domen.⁸⁰ Mae'r ferf *yslacio* a ddefnyddir ganddo nifer o weithiau am wlychu calch yn eithriad i'w bolisi o osgoi benthyciadau o'r Saesneg.⁸¹

Gellir bod yn sicr bod y berfau a nodir uchod yn rhan o'r iaith lafar ar y pryd am fod enghreifftiau ohonynt cyn amser Pughe. Pan fo'r enghraifft gynharaf i'w chael yn y cyfieithiad hwn mae'n fwy anodd barnu. Berf y gellir bod yn bur hyderus ei bod ar lafar ar y pryd yw *tyrchu*, gan fod digon o dystiolaeth ohoni ar lafar yn y cyfnod modern.⁸² Sbardunwyd y defnydd gan air Saesneg dilornus iawn ei naws (yn un o'r darnau gan awduron eraill, sy'n gallu bod yn llawer llai llednais na Johnes ei hun):

⁷⁶ Y tro cyntaf y defnyddir y gair rhoddir y nodyn: 'Neu y Llaethdy, mal y gelwir mewn rhai mânau' (t. 78), ac efallai fod hynny'n arwydd nad oedd y gair yn gyffredin ar lafar.

⁷⁷ *CP*, tt. 20 a 59.

⁷⁸ *CP*, t. 59; *LA*, t. 59 'top and tail them'.

⁷⁹ *CP*, t. 108; *LA*, t. 108 'he should be well bedded in clean straw'.

⁸⁰ *CP*, t. 23.

⁸¹ *CP*, t. 5 etc, *GPC* sv. *slaciaf*² < *S. slake*. Dichon fod yr *y-* ar ddechrau'r gair yn ddigon i gelu'r tarddiad yng ngolwg Pughe.

⁸² Gw. *GPC* sv. *tyrchaf*, lle nodir yr union ystyr am foch yn turio ag sydd gan Pughe yma.

so that a field plowed with this machine looks as if a drove of swine had been moiling in it.⁸³

megys yr edrycha maes à arddo yr offeryn hwn mal pe buasai genfaint o foch yn ei dyrchu.⁸⁴

Er nad yw GPC yn nodi enghreifftiau diweddarach o'r ferf *matogi* 'hofio',⁸⁵ oherwydd y polisi ar y pryd o beidio â dyfynnu o destunau ar ôl 1800, mae digon o enghreifftiau yng nghasgliad slipiau Uned y Geiriadur, ac felly gellir bod yn bur sicr nad bathiad gan Pughe oedd hwn. Ni chafwyd hyd i'r un enghraifft arall o *cawselltu*,⁸⁶ ac ni nodir y ferf *traphlitho* 'cymysgu' (am gaws) yn GPC o gwbl,⁸⁷ ond serch hynny ni ddylid cymryd o reidrwydd nad oeddent yn bodoli yn yr iaith lafar yn amser Pughe, yn enwedig o gofio mor gyfoethog oedd ei eirfa ym maes gwneud caws. Ar y llaw arall, gan mai Pughe yw'r unig un, hyd y gwyddys, i ddefnyddio *cleisio* yn yr ystyr 'ffosio',⁸⁸ mae'n debyg mai ymgais oedd hwn ganddo i fathu gair i gyfleu techneg bwysig yn yr amaethyddiaeth newydd.

Roedd berfau o'r iaith lafar yn fodd i Pughe drosi peth o ieithwedd ddysgedig y testun ffynhonnell yn glir a phwrpasol. Felly ei gynnig ar gyfer *excavate* (i wneud llyn) yw 'claddu neu gafnu'.⁸⁹ Ar gyfer 'it can never be again divided into such small parts' (am

⁸³ *LA*, t. 41.

⁸⁴ *CP*, t. 41.

⁸⁵ *CP*, t. 58.

⁸⁶ *CP*, t. 87 (= 'Thrusting or Hand-pressing the Cheese into the Vat' *LA*, t. 87).

⁸⁷ *CP*, tt. 84, 96.

⁸⁸ *CP*, tt. 27, 34, 46 (= 'drain, trench').

⁸⁹ *CP*, t. 29.

galch) rhoddodd ‘nid ellir yna byth ei ailfriwsioni mor fân’.⁹⁰ A’r enghraifft orau yw’r ferf *bwrw* a ddefnyddir ganddo i gyfieithu *suppose*,⁹¹ *attribute to*,⁹² a *calculate* (un o allweddeiriau’r testun a drosir mewn manau eraill gan *cyfrifo*) yn y darn hwn lle cyferchir y darllenydd yn uniongyrchol:

I leave it to you to calculate the saving this makes in expence.⁹³

Gadawaf i chwi fwrw pa faint o draul à achuba hyny.⁹⁴

Yn y testun hwn y ceir yr esiampl gynharaf o’r priod-ddull ‘gyrru ar’, sy’n trosi ‘continues’ yn y frawddeg hon: ‘Mae yn arddu yn yr hwyr, gan ddechreu chwech ar glôch yn y prydawn, ac yn gyru arni hyd ddêg’.⁹⁵ Ac mae ‘yn union cyn troi arno’ yn gyfieithiad pwrpasol o ‘immediately preceding its being ploughed in’.⁹⁶

Ffuriant nodweddiadol o’r iaith lafar yw *rhwtion* yn yr ymadrodd *rhwtion ffyrdd* sy’n cyfieithu *road drift*, peth a argymhellir fel gwrtiaith da i dir cleilyd.⁹⁷ Ffurfiwyd y gair trwy ychwanegu’r terfyniad lluosog i fôn y ferf *rhwtio* ‘rhwbio’ i gyfleu gwrthrych

⁹⁰ *CP*, t. 9.

⁹¹ *CP*, t. 16, ‘Byddaf yn bwrw fod y tîr eisoes wedi ei roi mewn trefyn dda.’ *CP*, t. 47, ‘a bwrw iddo fod yr un drwch ac ansawdd.’

⁹² *CP*, t. 20, ‘Yr oedd y cnwd tu hwnt i fy nysgwyliad, yr hyn à wyf yn bwrw oddiwrth y gwrtiaeth.’

⁹³ *LA*, t. 50.

⁹⁴ *CP*, t. 50.

⁹⁵ *CP*, t. 58; gw. *GPC* sv. *gyrraf*, lle nodir bod y priod-ddull ar lafar yn y gogledd.

⁹⁶ *CP*, t. 18; *LA*, t. 18.

⁹⁷ *CP*, t. 26. Hon yw’r enghraifft gynharaf o’r gair a gofnodwyd y tu allan i eiriaduron.

gweithred y ferf, sef yr hyn a rwtiwyd.⁹⁸ Ceir nifer o ffurfiau ar yr un patrwm yng nghyfieithiad Pughe, sef *briwion*,⁹⁹ *creision*,¹⁰⁰ *mwydion*,¹⁰¹ a *trychion*.¹⁰² Perthyn y pedwar gair hyn i ieithwedd y gegin, a *rhwtion ffyrdd* i eirfa'r llafurwr, felly mae'n ddiogel cymryd bod y ffurfiau hyn i gyd yn deillio o'r iaith lafar. Ymadrodd arall o'r un naws yw *mân geriach* sy'n cyfieithu 'smaller husbandry utensils'.¹⁰³

Mae'r defnydd o iaith lafar a drafodwyd hyd yn hyn yn weddol gyffredinol, yn sicr yn gartrefol i unrhyw ddarllenwyr o gefndir amaethyddol, ac eto heb fod yn perthyn i unrhyw ardal yn benodol hyd y gwyddys. Ond fe geisiodd Pughe roi arlliw o'r hyn a alwodd yn 'Dimetian dialect' ar ei gyfieithiad, gan ddefnyddio rhai o'r pethau a nodwyd yn llythyr Iolo Morganwg. Dwy nodwedd a gafodd gan Iolo oedd *iddei* am *i'w* (a oedd hefyd yn gymorth i Pughe osgoi sillgoli), a *beutu* am *o bobtu*.¹⁰⁴

Honnodd Iolo fod y 'Dimetians' yn defnyddio'r terfyniad -wys ar gyfer amser gorffennol y ferf weithiau, ond yn llai aml nag -odd, a gwelir Pughe yn gweithredu ar ei

⁹⁸ Mae'r dadansoddiad o *rhwtion* yn *GPC* braidd yn betrus, ond cymh. *creifion*, *diferion*, *lloffion*, *parion*, *torion* ac *ysgubion*.

⁹⁹ *CP*, t. 86, am ddamau o ymyl y caws sydd i'w torri â chyllell. Bôn y ferf *briwo* + *-ion* sydd yma, nid lluosog yr enw *briw* fel a gynigir yn *GPC* sv. *briw*.

¹⁰⁰ *CP*, t. 19, yn yr ymadrodd 'llwch teisen greision', gyda'r nodyn esboniadol: 'Sef yw creision y sothach â geir wrth wneyd olew, neu wrth doddi brasder.'

¹⁰¹ *CP*, t. 108, 'mwydion gwialen helyg' (= 'the pith of a willow stick'); t. 127 (= 'paste' mewn cosyn). Esbonnir *mwydion* yn *GPC* fel lluosog *mwydyn*, ond bôn y ferf *mwydo* 'trwytho' + *-ion* sydd yma.

¹⁰² *CP*, t. 95, 'y cyrau ac ymylau á dorir gyda chyllell gyffredin, a gosodir y trychion ar y crynswth' (= 'the skirts and edges cut off with a common knife, and the cuttings laid upon the principal mass'). Rhoddir y ffurf hon yn *GPC* fel lluosog yr ansoddair *trwch*² 'toredig', ond bôn y ferf *trychu* + *-ion* sydd yma.

¹⁰³ *CP*, t. 25.

¹⁰⁴ *CIM* II, t. 308. Yr enghraifft o *o beutu* yn *CP*, t. 19 (yn cyfieithu 'upwards of') yw'r gynharaf a nodir yn *GPC* sv. *obeutu*.

gyngor trwy roi ambell enghraifft o'r ffurfiau *-wys* neu *-ws* yma a thraw yn ei gyfieithiad.¹⁰⁵ Y ffurf arferol sydd ganddo ar drydydd unigol gorffennol y ferf yw *-oedd*, a gwelir bod y ddeusain ganddo'n gwbl gyson yn y ffurf honno, mewn cyferbyniad â'r llafariad seml yn y terfyniad lluosog *-odd* yn gyson. Gellid meddwl bod y ddwy ffurf i fod yn dafodieithol, gan fod y terfyniad berfol *-oedd* yn gyffredin mewn llawysgrifau o Forgannwg yn y cyfnod modern cynnar, a bod *-odd* yn gyffredin ar lafar yn y de fel symleiddiad o'r lluosog *-oedd*. Ond mewn gwirionedd mae Pughe yn rhoi'r ddwy ffurf fel rhai safonol yn argraffiad cyntaf ei ramadeg a gyhoeddwyd dair blynedd ar ôl *Cynghorion Priodor*.¹⁰⁶

Nodweddion deheuol eraill a ddefnyddir gan Pughe yn gyson yw *i faes*, *i bant*, *gweud* a *gwedyd* am *dweud* / *dywedyd*, a *ganto* am *ganddo* neu *gantho*. Gair sy'n digwydd yn aml iawn yn y gwaith yw *erfin* (gan fod Johnes yn awyddus i'w denantiaid dyfu'r cnwd hwnnw yn ymborth i'w hanifeiliaid), a hwnnw a geir gan Pughe bob tro yn hytrach na'r gair gogleddol *maip*.¹⁰⁷ Efallai ei fod yn hyn o beth yn dilyn cyngor Iolo i arfer termau amaethyddol lleol, ond os felly mae'n anodd canfod enghreifftiau pendant eraill o'r un

¹⁰⁵ E.e. *hi lwyddws*, *CP*, t. 51 a *cynnyddws* t. 74. Byddai Pughe yn gyfarwydd â'r terfyniad *-ws* o lawysgrifau Cymraeg Canol, ac ni fyddai o reidrwydd yn ei ystyried yn ffurf lafar.

¹⁰⁶ William Owen, *A Grammar of the Welsh Language* (London, 1803), tt. 37 (enwau, e.e. *moroz*) a 106 (berfau, e.e. *Adeilioez*). Nododd ffurfiau eraill ar y terfyniad berfol: 'The termination *oz*, of the third person singular, being an inflection of *awz*, is now popularly used for this person. It also used to be made to end frequently in *is*, *es*, *as*, *ws*, *wys*; which forms are still retained in the dialects of South Wales; and *is* and *es* are not uncommon in North Wales.' Erbyn ail argraffiad ei ramadeg roedd y ddwy ffurf wedi eu newid yn dawel bach i'r rhai arferol, W. Owen Pughe, *A Dictionary of the Welsh Language . . . to which is prefixed A Welsh Grammar* (Denbigh, 1832), tt. 32 a 84.

¹⁰⁷ Ond nid annichon fod Pughe yn ymwybodol mai benthyciad o'r Saesneg (gw. *GPC* sv.) oedd *maip*, a'i fod wedi ei osgoi am y rheswm hwnnw.

polisi. Un anhawster yw nad oes llawer yn hysbys am hanes y tafodieithoedd yn y ddeunawfed ganrif, ac felly ei bod yn anodd lleoli geiriau.

Achos diddorol yw ei ddefnydd o'r gair *cae* i gyfieithu *fence* mewn ystyr enerig am unrhyw fath o glawdd yn amgáu darn o dir.¹⁰⁸ Dyna ystyr wreiddiol y gair, ond roedd wedi datblygu cyn diwedd yr Oesoedd Canol i olygu'r tir a amgaeid, a honno yw ystyr gyffredin y gair trwy Gymru gyfan heddiw.¹⁰⁹ Serch hynny, ceir enghreifftiau o'r hen ystyr ym Meibl 1588,¹¹⁰ a nodir yr ymadrodd *cae crin* 'dry hedge' ar lafar yng ngogledd Ceredigion.¹¹¹ Mae'n anodd dweud, felly, a oedd Pughe yn adfer hen air yn ymwybodol er mwyn cael term generig, ynteu a wyddai fod y gair hwn yn dal i gael ei arfer gan ei ddarllenwyr. Ond wrth fanylu ar arferion de Ceredigion defnyddiodd y gair deheuol *perthi* am yr hyn a blennid ar ben clawdd (fel y gwelir yn yr ardal honno hyd heddiw):

In the neighbourhood of Newcastle-Emlyn, there is made a very neat fence by facing the mound on which is planted the hedge with stones. This makes a very handsome and good fence, and when at a distance from mountain sheep, is I believe effectual.¹¹²

¹⁰⁸ *CP*, t. 54, lle defnyddir *Caean* yn deitl ar adran (= *Fences*). Ni chofnodir enghraifft o'r gair benthyg *ffens* yn *GPC* cyn yr ugeinfed ganrif.

¹⁰⁹ Ar y defnydd o'r gair yn y tafodieithoedd modern gw. Alan R. Thomas, *The Linguistic Geography of Wales* (Cardiff, 1973), tt. 390–1.

¹¹⁰ *I Cron.* iv.23, *Diar* xv.19, *Eseia* v.5.

¹¹¹ Gw. *GPC* sv. *cae*. Ni nodir *cae* yn un o'r geiriau am 'hedge' yn Thomas, *Linguistic Geography*, t. 145.

¹¹² *LA*, t. 54.

Ogylch y Castell Newydd yn Emlyn, gwneir yno gloddiau pur gryno gan wynebu y clawdd â cheryg ar ben pa un y plênir y perthi. Mae hyn yn gwneyd cae da a hardd iawn, a diogel, yr wyf yn credu, os bydd oddiar ffordd defaid mynydd.¹¹³

Dengys yr achos hwn mor gymhleth oedd y dewisiadau ieithyddol a wynebai'r cyfieithydd rhwng y ffactorau technegol, tiriogaethol a hanesyddol. At hynny rhaid cofio safle amwys yr ardal rhwng afonydd Ystwyth a Dyfi mewn perthynas â'r tafodieithoedd i'r de ac i'r gogledd.¹¹⁴ Tynnodd Iolo Morganwg sylw at hyn o ran y sir gyfan, ond rhaid ei fod yn meddwl am ogledd y sir mewn gwirionedd. Dyma ei gyngor mwyaf arwyddocaol i Pughe parthed natur y dafodiaith:

The dialect of Cardiganshire is not purely Dimetian. It pertakes considerably of the Northwalian.¹¹⁵

Y sylw craff hwn a roddodd sail i Pughe gymysgu nodweddion deheuol a gogleddol yn ei gyfieithiad, gan dynnu ar ei dafodiaith ei hun o'r ardal gyffiniol yr ochr draw i afon Dyfi. Felly mae'r rhagenwau *o* ac *efo* yn gyffredin, ac ar yr un tudalen cawn 'y peth à weda fe' a 'fo ganlyna'.¹¹⁶ Ac mae lle i gredu bod rhai termau'n deillio o iaith amaethwyr Meirionnydd yn benodol, gan eu bod wedi parhau ar lafar yn yr ardal honno hyd y cyfnod modern, er enghraifft *trosi* am droi anifeiliaid allan i bori yn ystod y dydd,¹¹⁷ *didòni* am

¹¹³ *CP*, t. 54. Ar diriogaeth *perth* yn y cyfnod modern gw. Thomas, *Linguistic Geography*, t. 145. Y gair gogleddol a osgoir yn llwyr yn *CP* yw *gwrych*. Mae'n bosibl mai *sietin* fyddai gair lleol Pughe ei hun.

¹¹⁴ Gw. Thomas, *Linguistic Geography*, tt. 16 a 37.

¹¹⁵ *CIM*, II, t. 307. Gw. ymhellach Crowe, 'Iolo Morganwg and the Dialects of Welsh', t. 327.

¹¹⁶ *CP*, t. 47.

¹¹⁷ *CP*, tt. 35 a 57, gw. *GPC* sv. *trostaf* a *B xv* (1952), 28 (rhestr o eiriau Cwm Abergeirw).

dorri'r dywarchen oddi ar wyneb tir ('pare'),¹¹⁸ ac *eilio* am bentyrro mewn tas.¹¹⁹ A gair o Feirionnydd yw *rhidys* am nant.¹²⁰

Gellir gweld Pughe yn amrywio geiriau tafodieithol hyd yn oed o fewn yr un frawddeg ac i gyfieithu'r un gair yn y Saesneg, megis *bachgen* a *hogyn* am *boy* yn y frawddeg hon:

Suppose 200 sheep to employ one man and boy every day; I agree the boy may be superfluous in the old way, but allow one shilling per day for him.¹²¹

Bwrier i 200 o ddefaid ofyn gwaith un dyn a bachgen beunydd; addefaf nad oes eisiau yr hogyn yn yr hen ffordd, ond gedir fod iddo swllt yn y dydd.¹²²

Yng ngweddill y paragraff ceir *bachgen* ddwywaith eto, a *hogyn* ddwywaith hefyd. Mae'n anodd credu nad oedd y fath gydbwysedd yn gwbl fwriadol gan y cyfieithydd, a diddorol iawn yw nodi bod y ddau air yn cydfodoli hyd heddiw yn iaith gogledd Ceredigion a Meirionnydd.¹²³ Ceir amrywiaeth tebyg, ond o ran ffurf yr un gair, rhwng *hwynt* a *nhw* o fewn yr un frawddeg,¹²⁴ a rhwng *gwneuthur* a *gwneyd* (ffurf Pughe ar *gwneud*) ar hyd y

¹¹⁸ *CP*, tt. 18–19, gw. *GPC* sv. *didonaf* a *B* xiv (1951), 206.

¹¹⁹ *CP*, t. 98 (am bentyrro cawsydd), gw. *GPC* sv. *eiliaf* a *B* xiv (1951), 206.

¹²⁰ *CP*, t. 36 (gw. y dyfyniad uchod), *GPC* sv. *rhidys*.

¹²¹ *LA*, t. 65.

¹²² *CP*, tt. 65–6.

¹²³ Gw. Thomas, *Linguistic Geography*, tt. 518–19.

¹²⁴ *CP*, t. 90, 'symuder hwynt . . . symuder nhw'.

llyfr,¹²⁵ ac fel *bachgen* a *hogyn* roedd y naill yn safonol yn yr iaith lenyddol a'r llall yn nodweddiadol o iaith lafar y gogledd.¹²⁶ Ac nid annhebyg yw'r amrywio rhwng cyfystyron fel *mydylu* a *dasu*, neu rhwng gwahanol fathiadau am yr un peth fel *hinfydrai* a *tesfydrai*.

Ymddengys bod amrywio mynegiant ac ansefydlogrwydd yn bolisi bwriadol gan Pughe yn ei gyfieithiad. Dichon fod a wnelo hyn â dau ddarn o gyngor a gafodd oddi wrth Iolo Morganwg, a'r ddau'n ddadleuon yn erbyn cyfieithu i dafodiaith Ceredigion yn unig. Yn gyntaf, fe'i rhybuddiwyd gan Iolo ynghylch peryglu ei enw da fel awdurdod ar y Gymraeg trwy arddel iaith sathredig, a gellir gweld yr amrywio rhwng ffurfiau fel *hwynt* a *nhw* yn gyfaddawd a oedd yn fodd i gynnwys cywair llafar heb gefnu ar safonau llenyddol cydnabyddedig. Yn ail, nododd Iolo fod Ceredigion yn ardal ffiniol rhwng tafodieithoedd y de a'r gogledd, a byddai hynny'n esbonio'r amrywio rhwng *bachgen* a *hogyn* a'r cymysgedd o ffurfiau deheuol a gogleddol. Ac mae'n bosibl bod dylanwad Iolo i'w weld yn fwy cyffredinol yma o ran yr awydd i ddod â'r iaith ysgrifenedig yn nes at yr iaith lafar gan dynnu ar adnoddau amryw dafodieithoedd.¹²⁷

Y gysail debycaf o ran amrywio ieithyddol mewn cyfieithiad Cymraeg yw Testament Newydd William Salesbury lle rhoddir dewisiadau amgen, yn gyfystyron neu'n ffurfiau tafodieithol (deheuol yn bennaf), wrth ymyl y ddalen. Ac mae Salesbury yn debyg i Pughe mewn ffyrdd eraill hefyd. Roedd y ddau'n eiriadurwyr a aeth ati i fathu llawer o eiriau newydd i ateb gofynion cyfieithu mewn cyfnodau o newid deallusol aruthrol. Roedd

¹²⁵ Ceir y ddwy ffurf o fewn yr un paragraff, *CP*, t. 122, ond mae *gwneuthur* yn cyfieithu *fabricate* a oedd efallai â naws fwy aruchel na *make*.

¹²⁶ Cofier mai *deudneudwyr* oedd llysenw Iolo Morganwg am Ogleddwyr. Sylwer fod rhai o'r enghreifftiau cynharaf o'r ffurf *gwneud* o waith Elis Wynne o Feirionnydd (gw. *GPC* sv. *gwnaf*).

¹²⁷ Gw. Crowe, 'Iolo Morganwg and the Dialects of Welsh', t. 317: 'Everything suggests that the radical Iolo was determined to bring the standard written language closer to spoken varieties and to achieve this in a democratic spirit by drawing on the resources of all dialects.'

y ddau'n barod iawn i newid orgraff yr iaith i gydweddu â'u damcaniaethau am darddiad geiriau, ac fe'u collfarnwyd yn hallt am wneud hynny.¹²⁸ Mae gwahaniaeth mawr, wrth gwrs, rhwng statws a dylanwad gwaith y ddau gyfieithydd. Cam cyntaf arloesol mewn gorchwyl tyngedfennol bwysig oedd Testament Newydd Salesbury, ac ystyrir ei waith ef a'i ddilynwyr gyda'r esiamplau gorau yn y Gymraeg o'r modd y gall cyfieithu gyfoethogi'r iaith.¹²⁹ Distadl iawn mewn cymhariaeth yw *Cynghorion Priodor*, ac ni ellir priodoli fawr ddim dylanwad uniongyrchol iddo, ar yr iaith Gymraeg nac ar arferion ffermio. Serch hynny, mae cyfatebiaeth arwyddocaol rhwng gwaith y ddau gyfieithydd o ran dulliau a strategaeth.

Nodweddir cyfieithiadau Salesbury a Pughe gan ieithwedd gymysgryw sy'n cyfuno amryw ddisgyrsiau, yn hanesyddol ac yn ddaearyddol, gan gynnwys rhai y gellid eu hystyried yn ddulliau o gartrefoli megis ffurfiau llafar a thafodieithol. Ond mae'r cysyniad o estronoli, yn ôl dealltwriaeth Venuti ohono, yn cwmpasu ac yn wir yn hyrwyddo'r fath amrywiaeth:

Foreignizing translation is based on the assumption that literacy is not universal, that communication is complicated by cultural differences between and within linguistic communities. But foreignizing is also an attempt to recognize and allow those differences to shape cultural discourses in the translating language.¹³⁰

¹²⁸ Am esiampl o feirmiadaeth lem ar fypwyon orgraffyddol Salesbury gw. Ifor Williams, 'Ar Gymraeg William Salesbury', *Y Traethodydd*, CI (Ionawr 1946), 32–45, ac ychydig yn fwy gwerthfawrogol gan yr un awdur, 'Geirfa William Salesbury', *Y Traethodydd*, CIV (Hydref 1949), 176–81.

¹²⁹ Gw. e.e. Angharad Price, 'Cyfoeth Cyfieithu', *Taliesin*, 100 (Gaeaf 1997), 11–39.

¹³⁰ Venuti, *The Translator's Invisibility*, t. 120.

Mae disgrifiad Venuti o waith Josep Carner, cyfieithydd Catalaneg o ddechrau'r ugeinfed ganrif, yn un a fyddai'n hollol briodol i ddisgrifio cyfieithiad Pughe hefyd:

Although at the beginning of his translating career the process of linguistic standardization had not yet begun and Catalan usage displayed variations at every level, it is still possible to see that he devised innovative strategies which resulted in a richly heterogeneous Catalan. His lexicon deliberately mixed archaisms, learned diction, dialectisms, and neologisms, at times deviating from the registers and styles of the sources texts, at others resorting to literalisms or calques of foreign words and phrases.¹³¹

Mae ein hagwedd at beth fel hyn yn dibynnu ar ein disgwyliadau ni fel darllenwyr. Os disgwyliwn i gyfieithiad gydymffurfio â norm ieithyddol tybiedig ac os chwiliwn am gysondeb, eglurder a llyfnder arddull, yna mae'n anochel bod cyfieithiad fel eiddo Pughe yn cael ei gollfarnu. Ond mae dull o ddarllen i'w gael sy'n cydnabod anghysonderau ac anghydnawsedd, sef yr hyn a eilw Venuti yn 'symptomatic reading' mewn cyferbyniad â darllen dyneiddiol:

A humanistic practice of reading translations elides these discontinuities by locating a semantic unity adequate to the foreign text, stressing intelligibility, transparent communication, the use value of the translation in the receiving culture. A symptomatic reading, in contrast, locates discontinuities at the level of diction, syntax or discourse that reveal the translation to be a violent rewriting of the foreign

¹³¹ Lawrence Venuti, 'Local Contingencies: Translation and National Identities', yn idem, *Translation Changes Everything* (London and New York, 2013), tt. 116–40 (135–6).

text, a strategic intervention into the receiving culture, at once dependent on receptor values and variously in conformity with or abusive of them.¹³²

Gormod, efallai, fyddai honni bod *Cynghorion Priodor* yn ymyriad strategol, ond wrth inni symud tuag at olwg fwy cyflawn ar hanes cyfieithu i'r Gymraeg, mae'n bryd cydnabod gwerth y cyfieithiad hwn fel cam tuag at ystywto ac ehangu'r iaith.

Aberystwyth

Dafydd Johnston

¹³² Venuti, *The Translator's Invisibility*, t. 21.